Strategaeth y BBC

Rhoi Ansawdd yn Gyntaf

Rhagfyr 2010

Cael y gorau o'r BBC i dalwyr ffi'r drwydded

BBC Trust

Gair gan y Cadeirydd

Mae'r BBC wedi ymsefydlu'n gadarn fel rhan o'n diwylliant. Mae ganddo genhadaeth ddigyfnewid – hysbysu, addysgu a diddanu. Mae cefnogaeth gryf iddo o hyd gan y mwyafrif helaeth o dalwyr ffi'r drwydded. Ond yn yr un modd â phob sefydliad cyhoeddus, mae angen iddo newid a datblygu.

Dyna pam y gwnaethom lansio adolygiad ym mis Gorffennaf 2009 o strategaeth gyffredinol y BBC. Roeddem yn gweld bod mwy i'w wneud i ail-lunio'r BBC er budd talwyr ffi'r drwydded ac i beri iddo ganolbwyntio ar ei genhadaeth graidd. Roeddem hefyd yn cadw golwg ar y setliad nesaf ar ffi'r drwydded, y disgwyliem iddo fod yn un anodd beth bynnag fyddai lliw'r Llywodraeth.

Ymatebodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol i'n her drwy osod set o flaenoriaethau ar gyfer y dyfodol sy'n 'Rhoi Ansawdd yn Gyntaf': drwy bennu blaenoriaethau golygyddol clir a sicrhau bod y BBC yn canolbwyntio ar fuddsoddi yng nghynnwys rhaglenni, gan geisio gostwng costau gorbenion a chyflenwi.

Rhoddodd yr Ymddiriedolaeth brawf ar gynigion y Cyfarwyddwr Cyffredinol gyda'r cyhoedd a diwydiant. Cawsom fod cefnogaeth eang i'r BBC a hoffter ohono. Ond roedd ymdeimlad cryf hefyd y dylai'r BBC ymdrechu i wneud yn well mewn meysydd a oedd eisoes yn flaenoriaethau gan yr Ymddiriedolaeth – gwasanaethu'r holl gynulleidfaoedd, canolbwyntio ar gynnyrch neilltuol a gwell gwerth am arian.

Roedd tair neges yn taro tant yn neilltuol. Yn gyntaf, nad yw maint y BBC yn fater o'r pwys mwyaf i gynulleidfaoedd. Yn ail, bod canolbwyntio ar gynnwys gwirioneddol neilltuol yn bodloni cynulleidfaoedd – sy'n cael y math o raglenni y maent yn ei ddymuno – a'r diwydiant, nad yw am i'r BBC dresmasu'n ormodol ar ei diriogaeth. Ac yn drydydd, bod rhaid i'r BBC fod yn fwy agored a chydweithredol â'r sector cyhoeddus a'r sector preifat.

Gwnaethom gyhoeddi ein casgliadau cychwynnol ym mis Gorffennaf. Ers hynny, rydym wedi canolbwyntio'n bennaf ar y modd y dylai'r BBC gyrraedd cynulleidfaoedd wrth i lwyfannau amlhau. Ac rydym wedi ystyried sut y gall yr Ymddiriedolaeth fesur yn effeithiol y graddau y mae'r BBC yn cyflawni'r strategaeth hon.

Mae'r casgliadau yn y ddogfen hon yn dangos ffordd ymlaen sy'n glir ac yn egwyddorol – rhywbeth sydd o'r pwys mwyaf mewn cyfnod anodd. Ym mis Medi, am y tro cyntaf erioed, cymerodd yr Ymddiriedolaeth y cam o gynnig rhewi ffi'r drwydded am ddwy flynedd gan gydnabod bod talwyr ffi'r drwydded yn wynebu cyfnod anodd. Ers hynny, yn annisgwyl braidd, rydym wedi cytuno â'r Llywodraeth ar setliad cwbl newydd ar ffi'r drwydded, ar ôl negodiadau lle'r oedd ein gwaith ar yr Adolygiad o'r Strategaeth a'r drafodaeth gyhoeddus yn ei gylch wedi bod o gymorth i ni. Mae'r setliad bellach yn rhewi'r ffi i dalwyr ffi'r drwydded tan 2017 – sy'n rhywbeth yr wyf yn credu y bydd y rhan fwyaf o aelwydydd yn ei groesawu – ac yn rhoi sicrwydd o ran ariannu i'r BBC, ond ar lefel is a chyda chyfrifoldebau ychwanegol gan gynnwys rhai am Wasanaeth y Byd ac S4C.

Rydym yn dechrau'n awr ar y dasg ymestynnol o gyflawni ar sail y setliad newydd anodd hwn. Hyd yn oed o ddelio yn y modd mwyaf egnïol ag effeithlonrwydd, bydd angen o hyd am ail-lunio pellach ar wasanaethau a ffiniau'r BBC. Yn y strategaeth yr ydym yn ei chyhoeddi heddiw mae pedwar amcan clir sy'n gosod sylfaen gadarn ar gyfer y gwaith hwn. A byddwn yn dal i ymgynghori â'r cyhoedd wrth i ni ei rhoi ar waith.

Bydd y strategaeth hon yn creu BBC sy'n canolbwyntio'n well lle mae rhaglenni mwy neilltuol, gwell gwerth am arian a ffiniau cliriach; BBC sy'n dal i gyflawni'r dasg o amddiffyn a chyfoethogi'r maes cyhoeddus y mae cymdeithas ddemocrataidd fodern yn dibynnu arno, gan gyfrannu at gryfder economaidd y diwydiant darlledu a chyfathrebu ym Mhrydain. BBC sydd, yn anad dim, yn canolbwyntio'n benderfynol ar ei genhadaeth gwasanaeth cyhoeddus.

Gair gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol

Y cwestiwn cyntaf i'w ofyn wrth edrych ar y BBC a'i strategaeth yw: beth yw diben y BBC? O'r ateb hwnnw y mae'r ateb i bob cwestiwn arall yn deillio – blaenoriaethau golygyddol, maint a chwmpas, gwasanaethau a gweithgareddau.

Mae *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf* wedi ateb y cwestiwn hwnnw. Cenhadaeth y BBC yw hysbysu, addysgu a diddanu cynulleidfaoedd â rhaglenni a gwasanaethau sy'n uchel o ran ansawdd, gwreiddioldeb a gwerth. Mae'n genhadaeth sydd mor bwysig heddiw ag yr oedd ar unrhyw adeg yn hanes y BBC. Mewn cyfnod o ansicrwydd, mae'r cyhoedd ym Mhrydain am i'r BBC aros yn rhan ganolog o'u bywydau hwy ac o fywyd y DU gyfan – BBC sy'n gywir ynghylch ffeithiau, yn ddiduedd, yn greadigol, yn wreiddiol, yn frwdfrydig yn ei waith. Bob diwrnod, byddant yn ymuno â'r BBC yn y genhadaeth honno drwy ei droi ymlaen, neu droi ato tua 175 miliwn o weithiau ar y teledu, y radio a'r we. Mae eu barn am y BBC ar i fyny, ac mae'r sgorau am ansawdd, effaith ddiwylliannol ac argraff gyffredinol o'r BBC, er enghraifft, yn uwch o lawer nag yr oeddent rai blynyddoedd yn ôl.

Amcan y cynigion a gyflwynais i'r Ymddiriedolaeth ym Mawrth 2010 oedd sicrhau bod y BBC yn dal i allu chwarae'r rhan ganolog hon ym mywyd diwylliannol a democrataidd Prydain.

Yn gyntaf, wrth wraidd *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf* yr oedd ymroddiad o'r newydd gan y BBC fel corff sydd wedi ymgyflwyno'n ddiwyro i'r genhadaeth honno o hysbysu, addysgu a diddanu drwy raglenni a gwasanaethau o'r ansawdd uchaf. Gwnaethom addewid i wario mwy o ffi'r drwydded ar y dasg o gomisiynu a chreu cynnwys rhagorol a'i gyflwyno i'r cyhoedd. A gwnaethom gynnig symud ymhellach o lawer eto tuag at neilltuolrwydd, drwy wario mwy o ffi'r drwydded ar gynnyrch na fyddai'n cael ei greu o gwbl heb y BBC. Gwnaethom osod pum blaenoriaeth olygyddol ar gyfer y chwe blynedd nesaf – cyflenwi'r newyddiaduraeth orau yn y byd; cynnwys rhagorol i blant; drama a chomedi uchelgeisiol a gwreiddiol o'r DU; cynnyrch ym maes gwybodaeth, cerddoriaeth a'r celfyddydau sy'n ysbrydoli; a dal i ymrwymo i'r digwyddiadau hynny sy'n dod â chymunedau a'r genedl at ei gilydd.

Yn ail, eglurwyd hefyd yn *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf* y byddai angen cyflymu newidiadau o fewn y BBC. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi rhoi her i ni fynd yn gyflymach ac yn ddyfnach na'n cynigion cyntaf ac yn y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol ar leihau costau doniau, torri niferoedd a chyflogau uwch reolwyr a gwneud gweithrediadau'r BBC yn fwy syml, agored a thryloyw. Man cychwyn yn unig yw'r newidiadau hyn, a chredaf y bydd trawsnewidiad mewnol y BBC yn thema allweddol i ni yn ystod cyfnod y strategaeth hon.

Mae'r setliad newydd ar ffi'r drwydded yn rhoi chwe blynedd i ni'n awr i ganolbwyntio ar y ddau nod hyn, sef ansawdd a newid sefydliadol. Ond mae'r setliad hefyd yn sicrhau ac yn

atgyfnerthu annibyniaeth y BBC, gyda chwe blynedd o sicrwydd ariannol a gwarant na wnaiff y Llywodraeth ymyrryd yn y cyfnod hwnnw ynghylch graddfa a chwmpas gwasanaethau'r BBC.

Mae'r BBC yn gweithredu heddiw mewn byd lle mae dewis a chystadlu rhyfeddol yn y cyfryngau. Ond cafwyd bod y sylfaen i'w ddarpariaeth – fel darlledwr cyhoeddus annibynnol eang sydd wedi'i ariannu gan bawb ac yn atebol i'r cyhoedd, a chanddo genhadaeth i hysbysu, addysgu a diddanu pawb â gwasanaethau sydd ar gael am ddim wrth y pwynt defnyddio – yn un gadarn ac addasadwy. Amcan y strategaeth a gyflwynwyd yn wreiddiol gan y Weithrediaeth ym mis Mawrth oedd sicrhau'r genhadaeth honno ar gyfer y dyfodol. Mae wedi'i gwella a'i chryfhau ers hynny drwy ymgynghori a chraffu gan yr Ymddiriedolaeth. Rwyf yn hyderus mai hon yw'r strategaeth gywir i'n harwain wrth wynebu'r heriau a'r cyfleoedd sydd o'n blaen.

Crynodeb

Cenhadaeth y BBC yw hysbysu, addysgu a diddanu

Mae'r Siarter Frenhinol yn datgan bod rhaid i'r BBC hysbysu, addysgu a diddanu a gwneud hynny drwy gyflawni'r chwe diben cyhoeddus sydd wedi'u gosod iddo gan y Llywodraeth. Mae'r genhadaeth honno'n ddigyfnewid, ond mae angen i'r strategaeth i'w chyflawni ddatblygu dros amser.

Dyma strategaeth y BBC

Mae'r BBC yn wasanaeth cyhoeddus. Mae angen iddo greu gwahaniaeth rhyngddo a gweddill y farchnad a chadw ymddiriedaeth y bobl sy'n talu amdano.

Mae hon yn strategaeth ar gyfer cyflymu'r newidiadau yn niwylliant ac ymddygiad y BBC sydd eisoes yn mynd ymlaen. Mae'n golygu canolbwyntio ar bedwar **amcan i'r BBC** yng ngweddill y cyfnod Siarter hwn, er mwyn:

- Cynyddu neilltuolrwydd ac ansawdd ei gynnyrch
- Rhoi gwell gwerth am arian i dalwyr ffi'r drwydded
- Gosod safonau newydd ar gyfer gweithredu agored a thryloyw
- Gwneud mwy i wasanaethu'r holl gynulleidfaoedd

Gweledigaeth

Mae budd mawr i bob un ohonom o gael BBC cryf, yn awr ac yn y dyfodol.

Mae budd personol i bob un ohonom yn y rhaglenni a'r gwasanaethau yr ydym yn eu caru a'u mwynhau. Mae budd economaidd diriaethol i'r economi greadigol – yr amcangyfrif presennol yw tua £7.7 biliwn. Ond mae budd ehangach i gymdeithas hefyd nad yw'n hawdd ei fesur. Mae'r BBC yn creu ac yn meithrin man cyhoeddus dibynadwy ar gyfer dadleuon dinesig a menter ddiwylliannol. Fel arall gallai'r man cyhoeddus hwnnw fod dan fygythiad mewn byd lle mae'n ymddangos bod pŵer ym marchnad y cyfryngau'n crynhoi mewn nifer llai o ddwylo tra bo cynulleidfaoedd yn mynd yn fwyfwy unigol a gwasgarog, a chanddynt ddewisiadau cynyddol ynghylch lle i fynd a beth i'w wylio.

Yn fwy agos atom, mae gan y BBC rwymedigaethau clir tuag at dalwyr ffi'r drwydded i wario eu harian yn ddoeth ac i ganolbwyntio ar greu cynnwys rhagorol na allant ei gael mewn mannau eraill. Mae'r BBC yn wasanaeth cyhoeddus. Mae angen iddo ei wneud ei hun yn wahanol i weddill y farchnad a chadw ymddiriedaeth y bobl sy'n talu amdano.

Mae'r strategaeth hon yn nodi'r camau pendant y bydd y BBC yn eu cymryd i'r diben hwnnw o hyn tan ddiwedd y cyfnod Siarter presennol yn 2016. Mae'n cynnwys pedwar amcan, sydd wedi'u hegluro'n fanylach ar y tudalennau sy'n dilyn.

- **Cynyddu neilltuolrwydd ac ansawdd ei gynnyrch** – dylid ceisio rhoi ansawdd cyfarwydd sy'n neilltuol i'r BBC i bob rhaglen
- **Rhoi gwell gwerth am arian i dalwyr ffi'r drwydded** – gwell effeithlonrwydd ynghyd â mwy o fuddsoddi mewn cynnyrch o ansawdd uchel
- **Gosod safonau newydd ar gyfer gweithredu agored a thryloyw** – fel bod y cyhoedd a'r farchnad yn deall sut mae'r BBC yn gwario ei arian, sut mae'n perfformio a beth mae'n bwriadu ei wneud nesaf
- **Gwneud mwy i wasanaethu'r holl gynulleidfaoedd** – dod â gwasanaethu'r BBC i'r boblogaeth gyfan; sicrhau bod rhywbeth ar gyfer pawb; adlewyrchu'r DU gyfan yn ei gynnyrch

Byddwn yn asesu cynnydd o hyn ymlaen yn erbyn yr amcanion hyn drwy ddefnyddio amryw o ddulliau mesur gwahanol – rhai wedi'u seilio ar niferoedd pendant a rhai ar farnu mwy cymhleth. Bydd llawer o'r dulliau mesur yn canolbwyntio ar ymatebion cynulleidfaoedd, a fydd bob amser yn brif ystyriaeth i ni.

Dylai'r BBC gynyddu neilltuolrwydd ac ansawdd ei gynnyrch

Mae cynulleidfaoedd yn dal i roi sgorau uchel iawn am ansawdd i'r rhan fwyaf o wasanaethau'r BBC ond dylai'r BBC ddal i anelu'n uwch. Mae'r cyhoedd yn deall hefyd y dylai natur cyllid y BBC ganiatáu iddo fentro i fwy o raddau, ac maent yn disgwyl mwy gan y BBC o ran y cynnwys neilltuol y maent yn teimlo y dylai ei gynnig. Mewn adolygiadau o wasanaethau gan yr Ymddiriedolaeth pennwyd bod neilltuolrwydd cynyddol yn ofyniad canolog i BBC Ar-lein, i Radio 1 a Radio 2 ac i sianeli teledu'r BBC. Gan ei fod yn cael ei ariannu gan y cyhoedd, mae angen i'r BBC wneud mwy nag unrhyw ddarlledwr arall i greu cynnyrch sy'n arloesol ac yn wahanol i'r hyn sydd ar gael mewn mannau eraill.

Mae hyn yn golygu

Dylai pob rhaglen BBC (neu eitem o gynnwys ar lein) fod ag ansawdd sy'n neilltuol i'r BBC, gan amlygu o leiaf un o'r canlynol:

- safonau golygyddol uchel
- uchelgais creadigol a golygyddol
- ehangder a dyfnder
- cynnwys sy'n canolbwyntio ar y DU a doniau cynhenid

Dylai pob un o wasanaethau'r BBC i'r DU gael sgôr gyson uchel yn erbyn pob un o'r pedwar gwerth hyn.

Yn ôl y diffiniad hwn, nid yw neilltuolrwydd yn ymwneud â chyfyngu effaith ar y farchnad. Nid ydym yn disgwyl i'r BBC ganolbwyntio'n gyfan gwbl ar feysydd lle mae'r farchnad yn methu. Ond gall neilltuolrwydd fod yn bwysicach byth mewn meysydd lle mae ystod ehangach o gystadleuaeth fasnachol.

Dylai'r BBC hefyd geisio cynyddu ansawdd ei gynnyrch yn y pum maes y mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol wedi rhoi blaenoriaeth iddynt, sef:

- newyddiaduraeth
- gwybodaeth, cerddoriaeth a diwylliant
- drama a chomedi o'r DU
- plant
- digwyddiadau sy'n dod â chymunedau a'r genedl at ei gilydd

Dyma a wnaiff y BBC yn awr

Gwneud BBC One a BBC Two yn fwy neilltuol, ar yr oriau brig ac yn ystod y dydd.

Cynyddu neilltuolrwydd gwasanaethau eraill sy'n gweithredu mewn marchnadoedd lle mae dewis eang o ddarpariaeth fasnachol, yn enwedig BBC Ar-lein, Radio 1 a Radio 2.

Dilyn strategaeth newydd ar gyfer BBC Ar-lein lle mae gweithgarwch y BBC mewn marchnadoedd ar-lein penodol wedi'i ddiffinio'n glir a'i gyfiawnhau o ran ei neilltuolrwydd a'i ffocws ar ddibenion cyhoeddus y BBC.

Sicrhau bod yr holl gomisiynwyr rhaglenni a chynnwys, wrth benderfynu o ddydd i ddydd, yn chwilio am neilltuolrwydd ac nid poblogrwydd posibl yn unig.

Sut bydd yr Ymddiriedolaeth yn mesur cynnydd

Byddwn yn tracio canfyddiadau cynulleidfaoedd o 'uchelgais creadigol a golygyddol' – hyn sy'n cyfateb yn fwyaf agos i'r bwlch presennol y mae'r cyhoedd yn ei weld wrth i ni gyflawni dibenion cyhoeddus y BBC.

Byddwn am weld arwyddion o wella yng nghanfyddiadau cynulleidfaoedd o neilltuolrwydd BBC One a BBC Two erbyn diwedd 2011 a byddwn yn ystyried bryd hynny a oes angen i ni ofyn am weithredu pellach gan reolwyr y BBC i ymateb i bryderon cynulleidfaoedd.

Byddwn yn tracio mesurau ansawdd, fel sgorau Mynegai Gwerthfawrogiad am wasanaethau'r BBC fel rhan o'n gwaith rheolaidd i fonitro perfformiad a byddwn yn cyhoeddi adroddiad bob blwyddyn am berfformiad y BBC yn y maes hwn. Yn achos BBC Ar-lein, rydym yn disgwyl gweld sgorau uwch am ansawdd, a gwella neu gau'r gwefannau nad ydynt yn cwrdd â disgwyliadau cynulleidfaoedd o ran ansawdd.

Byddwn yn rhoi mwy o bwyslais ar fesurau ansawdd yn fframwaith asesu perfformiad sefydledig y BBC – Ansawdd/Cyrhaeddiad/Effaith/Gwerth am Arian.

Rydym wedi gofyn i reolwyr y BBC ddarparu gwybodaeth i'r cyhoedd yn fwy rheolaidd am ansawdd a neilltuolrwydd rhaglenni, i ategu'r wybodaeth o ddydd i ddydd am gyrhaeddiad a chyfran cynulleidfaoedd a gyhoeddir drwy arolygon y diwydiant, sef BARB a RAJAR. Bydd y BBC yn awr yn darparu adroddiadau chwarterol am berfformiad pob un o'i wasanaethau yng nghyd-destun Mynegeion Gwerthfawrogiad a mesurau eraill o ansawdd a neilltuolrwydd, ochr yn ochr â ffigurau am gyrhaeddiad wythnosol. Credwn y bydd hyn yn rhoi cymhelliad ychwanegol i staff y BBC roi ansawdd yn gyntaf.

Dylai'r BBC roi gwell gwerth am arian i dalwyr ffi'r drwydded

Mae 58% o'r boblogaeth yn credu bod ffi'r drwydded yn rhoi gwerth da am arian, ond mae ymchwil i gynulleidfaoedd hefyd yn dangos bod lefel gyson o bryder ynghylch a yw ffi'r drwydded yn cael ei defnyddio yn y modd mwyaf effeithiol, a bod pryderon yn ymwneud yn bennaf â chostau doniau a thaliadau a threuliau uwch reolwyr. Mae'r BBC wedi gwneud cynnydd sylweddol ar effeithlonrwydd yng nghyfnod presennol ffi'r drwydded, ac mae wedi cymryd camau i ostwng taliadau i ddoniau a rheolwyr. Ond gall wneud mwy i ddangos y gwelliant hwnnw, tra bydd y setliad newydd ar ffi'r drwydded yn mynnu ei fod yn mynd yn bellach.

Mae hyn yn golygu

Rhaglen effeithlonrwydd sy'n parhau i roi pwysau drwy graffu allanol ar y ffordd y mae'r BBC yn ei redeg ei hun ac yn canfod arbedion ac effeithlonrwydd.

Ymrwymiad i fuddsoddi mwy ar gyfartaledd mewn cynnwys gan leihau gorbenion – yn enwedig mewn meysydd y gwyddom eu bod yn peri'r pryder mwyaf i dalwyr ffi'r drwydded.

Dyma a wnaiff y BBC yn awr

Cyrraedd ei darged presennol ar effeithlonrwydd, gan ryddhau gwerth bron £2 biliwn i'w fuddsoddi erbyn Ebrill 2013 drwy arbed 3% o flwyddyn i flwyddyn.

Ymdopi ag effaith cynnig yr Ymddiriedolaeth i rewi ffi'r drwydded am 2011/12 a 2012/13, sy'n gofyn arbedion tymor byr pellach sy'n werth £140 miliwn dros ddwy flynedd.

Cynnal adolygiad ariannol newydd i ailedrych ar sylfaen gostau gyfan y BBC a darparu'r arbedion tymor hwy sy'n ofynnol dan y setliad newydd ar ffi'r drwydded rhwng 2013/14 a 2016/17. (Bydd yr Ymddiriedolaeth yn penodi ei chynghorwyr ei hun i archwilio'r gwaith hwn.)

Rhoi i'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yr hawl i wneud penderfyniadau am ba feysydd o wariant y BBC y bydd yn ymchwilio iddynt drwy ei rhaglen o astudiaethau gwerth am arian.

Cwblhau gostyngiad o 25% yng nghyflogau uwch reolwyr ynghyd â gostyngiad o 18% yn niferoedd yr uwch reolwyr erbyn Rhagfyr 2011, o linell sylfaen ar 1 Awst 2009.

Buddsoddi cyfran fwy o gyllideb gwasanaeth cyhoeddus y BBC yn y broses o greu cynnwys.

Gostwng y gyfran o'r gyllideb gwasanaeth cyhoeddus sydd wedi'i dynodi fel 'gorbenion' i lai na 10% o 2013/14.

Sut bydd yr Ymddiriedolaeth yn mesur cynnydd

Byddwn yn cyhoeddi crynodeb o gyllideb y BBC ar ddechrau pob blwyddyn sy'n ddigon manwl i ddangos sut mae arian yn cael ei ddyrannu ym mhob rhan o'r corff.

Bydd y cyflawni ar y targed presennol ar gyfer effeithlonrwydd yn dal i gael ei wirio gan archwilwyr allanol y BBC, KPMG, a bydd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn ei ystyried mewn astudiaeth gwerth am arian yn 2011.

Mae angen i'r BBC wneud gwaith pellach, wedi i effaith y rhwymedigaethau ariannu newydd fel y rhai ar gyfer Gwasanaeth y Byd ac S4C ddod yn glir, i bennu diffiniadau cywir a chyson o wariant ar gynnwys a gorbenion ac i osod llinellau sylfaen ar gyfer mesur yn y dyfodol.

Bydd cynnydd ar ostwng gorbenion yn cael ei gofnodi yn Adroddiad Blynyddol y BBC.

Bydd KPMG yn gwirio'r gostyngiadau penodol sy'n ofynnol yn niferoedd a chostau uwch reolwyr.

Bydd y BBC hefyd yn dal i dracio a chofnodi cynnydd ar leihau'r gwariant cyffredinol ar gostau doniau, gan roi pwyslais penodol ar y rhai sy'n cael y taliadau mwyaf.

Bydd cynghorwyr allanol yr Ymddiriedolaeth yn craffu ar gynigion ar gyfer arbedion drwy effeithlonrwydd yn y dyfodol.

Byddwn yn dal i fesur canfyddiadau talwyr ffi'r drwydded o werth am arian gan ddefnyddio'r dulliau mesur sydd yn ein harolygon sefydledig o gynulleidfaoedd.

Dylai'r BBC osod safonau newydd ar gyfer gweithredu agored a thryloyw

Mae'r BBC yn pontio'r sector cyhoeddus a'r sector preifat. Am ei fod yn cael ei ariannu gan y cyhoedd, mae'n ofynnol iddo fod mor dryloyw ag sy'n bosibl, ond bydd gwirioneddau masnachol yn gosod rhai terfynau ar hynny bob amser. Mae pryderon pendant gan dalwyr ffi'r drwydded ynghylch y modd y mae'r BBC yn gwario eu harian mewn meysydd penodol, gan gynnwys taliadau i ddoniau ac uwch reolwyr. Mae cwmnïau cyfryngau masnachol yn pryderu nad yw'r BBC bob amser mor agored ag y gallai fod ynghylch patrymau buddsoddi yn y dyfodol, ffiniau a chyfleoedd drwy bartneriaeth. Mae angen i'r BBC ymateb. Un prawf allweddol ar lwyddiant y strategaeth hon fydd a ellir dangos ei bod yn gweithio drwy batrwm mwy eang o lawer o ddatgelu a chofnodi cyhoeddus.

Mae hyn yn golygu

Corff mwy tryloyw, sy'n egluro'n gyhoeddus sut ac ym mhle y caiff arian ei wario, pa gynnydd a wneir ar gyflawni'r strategaeth hon a pha gynlluniau ar gyfer y dyfodol sydd ar gael am fuddsoddi a gweithgarwch newydd.

BBC sy'n cydweithio'n fwy agored â'r farchnad, gan roi gwybod am fuddsoddiadau newydd sylweddol, cyfathrebu'n uniongyrchol ag eraill yn y diwydiant, pennu a gosod ffiniau clir o gwmpas meysydd 'dim mynediad' lle mae elfennau sensitif neilltuol, gan feithrin amryw o bartneriaethau gyda thuedd at drefniadau sydd heb fod yn gyfyngol.

Ymddiriedolaeth y BBC sy'n cynnwys y diwydiant cyfryngau ehangach yn fwy uniongyrchol yn y broses o graffu ac adrodd ar berfformiad y BBC.

Ystod ehangach o wybodaeth am berfformiad sydd ar gael i'r cyhoedd yn rheolaidd – yn cynnwys asesiadau o ansawdd gan gynulleidfaoedd yn ogystal â ffigurau o ddydd i ddydd am gyrhaeddiad a chyfran.

Dyma a wnaiff y BBC yn awr

Cyhoeddi cynllun busnes blynyddol a fydd yn nodi ar gyfer pob un o wasanaethau'r BBC nid yn unig y cylch gwaith a'r weledigaeth bresennol ond hefyd unrhyw gynigion a buddsoddiadau newydd mawr, gan ymestyn mwy nag un flwyddyn i'r dyfodol os oes modd ac sydd ar ffurf fwy cryno na'r Datganiadau o Bolisi Rhaglenni presennol.

Cyhoeddi cyllideb flynyddol ochr yn ochr â'r cynllun busnes, gyda sylwebaeth sy'n egluro'n fwy manwl sut y caiff yr arian ei wario – nid yn unig y rhaniad rhwng gwahanol wasanaethau ond hefyd y symiau a gaiff eu gwario mewn meysydd penodol sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd (gan gynnwys, er enghraifft, costau eiddo a doniau). Bydd y sylwebaeth ar y gyllideb yn egluro hefyd sut mae pum blaenoriaeth olygyddol y Cyfarwyddwr Cyffredinol wedi'u defnyddio i bennu blaenoriaethau gwariant a chyllidebau trwydded gwasanaeth.

Cymhwyso model newydd o ymgysylltu a chyfathrebu rheolaidd â'r farchnad yn y meysydd mwyaf sensitif yn y farchnad – gan ofyn am ymatebion gan y diwydiant i unrhyw fenter y mae'r Weithrediaeth yn credu ei bod yn debygol o olygu newid sylweddol mewn gwasanaeth fel bod angen ei gymeradwyo gan yr Ymddiriedolaeth; diweddaru cynlluniau

busnes hanner ffordd drwy'r flwyddyn lle bynnag mae mentrau newydd yn datblygu neu'n codi.

Ymgysylltu'n ffurfiol â'r diwydiant i fwy o raddau ynghylch BBC Ar-lein – lle mae'r sensitifrwydd mwyaf yn codi – drwy drefnu o leiaf ddau ddigwyddiad briffio swyddogol bob blwyddyn i drafod strategaeth ar-lein ac ymgynghori'n uniongyrchol ar y cynllun busnes blynyddol.

Llunio adroddiadau chwarterol am dreuliau, rhoddion a lletygarwch ar gyfer yr holl uwch reolwyr sydd wedi'u henwi sy'n cael cyflog o fwy na £150,000.

Llunio adroddiad blynyddol am daliadau i'r holl uwch reolwyr gwasanaeth cyhoeddus, heb enwau wrth y cyflogau ond eu bod wedi'u cyhoeddi ar ffurf bandiau sydd heb fod yn fwy na £5,000 o led sydd wedi'u gosod mewn cynllun sefydliadol.

Cyhoeddi costau doniau wedi'u dadansoddi i roi ffigurau ar gyfer gwariant cyfanredol yn y bandiau sydd wedi'u hawgrymu gan y Pwyllgor Dethol ar Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon[1] yn ogystal â dangos niferoedd yr unigolion sydd ym mhob band. Ar gais yr Ymddiriedolaeth, mae'r Weithrediaeth yn dal i ystyried y materion cyfreithiol a masnachol sy'n gysylltiedig â'r cysyniad o enwi'r unigolion sydd yn y bandiau uchaf un.

Cynnwys yn asesiad blynyddol yr Ymddiriedolaeth o berfformiad y BBC broses i ymgysylltu'n uniongyrchol â'r diwydiant cyfryngau ehangach a chael adborth ganddo.

Hyrwyddo'n fwy eang y sylfaen dystiolaeth sylweddol (ar farn cynulleidfaoedd a chyd-destun y farchnad) y mae'r Ymddiriedolaeth wedi'i chreu ei hun ac a ddefnyddir ganddi i lywio ei phenderfyniadau.

Sut bydd yr Ymddiriedolaeth yn mesur cynnydd

Bydd y cyflawni ar yr holl fentrau penodol uchod yn dangos cynnydd profedig.

Byddwn hefyd yn defnyddio ymchwil i gynulleidfaoedd ac ymgysylltu â'r diwydiant i fesur a chofnodi canfyddiadau allanol o'r canlynol: a yw'r BBC yn ddigon tryloyw ai peidio; a yw'r BBC yn gorff agored wrth ddelio ag ef; ymddiriedaeth gyffredinol yn y BBC.

[1] Gweler http://www.publications.parliament.uk/pa/cm200910/cmselect/cmcumeds/515/515.pdf t. 19

Dylai'r BBC wneud mwy i wasanaethu'r holl gynulleidfaoedd

Mae natur gyffredinol ffi'r drwydded yn golygu bod rhwymedigaeth i geisio cyflenwi holl wasanaethau'r BBC, a gwasanaeth o'r un ansawdd, i bob rhan o'r gynulleidfa. Mae ymchwil i gynulleidfaoedd yn awgrymu bod y mwyafrif helaeth o bobl yn teimlo y dylai holl wasanaethau'r BBC fod ar gael i bob aelwyd yn y DU sydd am gael mynediad atynt. Mae hefyd yn dangos bod pryder parhaus ynghylch a yw'r BBC yn bodloni'r gofyniad iddo 'adlewyrchu'r DU, ei Chenhedloedd, ei rhanbarthau a'i chymunedau'. Codwyd pryderon tebyg gan Gynghorau Cynulleidfa'r Ymddiriedolaeth ac rydym yn cytuno y dylai'r BBC ymdrechu i bortreadu pob rhan o'r gynulleidfa'n deg ac yn gywir yn ei holl gynnyrch.

Mae hyn yn golygu

Dosbarthu

Ceisio sicrhau bod mynediad cyfleus gan bob aelwyd at bob un o wasanaethau perthnasol y BBC, yn rhad ac am ddim wrth y pwynt defnyddio.

Gan wneud hynny mewn modd sydd: yn diogelu llwybrau agored rhwydd a hygyrch at gynnwys y BBC; yn cynnal llwyfannau darlledu am ddim o ansawdd da; yn rhoi gwerth am arian i dalwyr ffi'r drwydded; yn sicrhau safonau sylfaenol o ran ansawdd, priodoli brand ac amlygrwydd dyladwy iddo; yn cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol; yn dechnegol ymarferol.

Cyrhaeddiad

Cadw cyrhaeddiad wythnosol holl wasanaethau'r BBC gyda'i gilydd ar fwy na 90% o'r boblogaeth[2].

Adlewyrchu

Gwella'r graddau y mae gwasanaethau'r BBC yn taro tant â holl Genhedloedd, rhanbarthau a chymunedau'r DU ac adlewyrchu natur ddatganoledig y DU a chymeriad neilltuol pob un o'i rhannau.

Dyma a wnaiff y BBC yn awr

I wella a symleiddio dosbarthu er mwyn cael mynediad cyffredinol:

Parhau â'i strategaeth bresennol ar ddosbarthu teledu, a buddsoddi mewn llwyfannau darlledu am ddim a chario gwasanaethau ar lwyfannau lloeren a chebl eraill sy'n sicrhau darpariaeth sydd bron yn gyffredinol.

Dal i ddatblygu a buddsoddi mewn technolegau teledu newydd, gan gynnwys y botwm coch, manylder uchel, teledu protocol rhyngrwyd a 3D, lle mae gwerth i'r cyhoedd yn hynny.

Gwella ei ddarpariaeth DAB cenedlaethol yn awr – fel ei bod yn agos at gyfateb i FM ar gyfer holl wasanaethau digidol y BBC i'r DU gyfan cyn gynted ag sy'n bosibl – a gwerthuso opsiynau ar gyfer gwella'r ddarpariaeth DAB ar gyfer gwasanaethau radio'r BBC i'r Cenhedloedd.

Paratoi ar gyfer unrhyw bosibilrwydd o newid radio i ddigidol mewn dwy ffordd:

[2] Wedi'i seilio ar arolwg Cross Media Insight (CMI) sy'n cynnwys holl lwyfannau a gwasanaethau'r BBC

- Paratoi cynllun ar gyfer ehangu DAB cenedlaethol ymhellach i gyfateb i ddarpariaeth genedlaethol y BBC ar FM wrth i ddyddiad y newid agosáu.
- Dal i gydweithio â Llywodraeth a'r diwydiant i asesu lefel y buddsoddi y mae ei angen i ehangu'r ddarpariaeth o DAB lleol mewn pryd ar gyfer unrhyw newid i ddigidol, gan gydnabod nad yw hyn yn cael ei ariannu ar hyn o bryd dan setliad newydd ffi'r drwydded. Byddwn hefyd am asesu unrhyw gynlluniau ar gyfer newid i ddigidol ochr yn ochr ag adborth ac ymchwil bellach mewn cysylltiad â chynulleidfaoedd.

Adolygu'r ddadl ar sail gwerth am arian ar gyfer dyblygu'r dosbarthu ar wasanaethau radio'r BBC drwy ddefnyddio llwyfannau teledu digidol erbyn yr adeg y bydd y ddarpariaeth DAB yn agos at fod yn gyfatebol i FM.

Ail-lunio a rhesymoli ei bolisi ar gyfer syndicetio cynnwys dal i fyny ar alwad – fel bod cynnwys hir teledu'r BBC ar gael ar ffurf gyfun yn unig ar alwad, er enghraifft drwy BBC iPlayer, ac nid fesul rhaglen. Rhaid i'r iPlayer ei hun fod ar gael a bod yn hygyrch o hyd ar ystod eang o ddyfeisiau a llwyfannau.[3]

Cefnogi'r camau i gymell darparu a defnyddio band eang drwy'r £150 miliwn sydd wedi'i neilltuo bob blwyddyn dan setliad newydd ffi'r drwydded, yn unol â chweched diben cyhoeddus y BBC (adeiladu Prydain ddigidol) a'i ddyletswydd i geisio cynyddu mynediad cyhoeddus at iPlayer.

Dal i ddatblygu rhaglenni cyfrifiadurol symudol os yw'r rhaglenni'n rhoi mynediad at gynnwys presennol BBC Ar-lein ac os ydynt ar gael i wahanol systemau gweithredu symudol ar sail deg, resymol ac anwahaniaethol.

Wrth gynnal cyrhaeddiad cyffredinol gwasanaethau'r BBC:

Manteisio ar gyrhaeddiad eang a phoblogrwydd gwasanaethau mawr i gyfrannu'n fwy helaeth at gyflawni dibenion cyhoeddus y BBC – er enghraifft, drwy ddefnyddio gwasanaethau uchel eu cyrhaeddiad fel BBC One, Radio 1 a Radio 2 i sicrhau bod cynifer o oedolion ag sy'n bosibl yn defnyddio gwasanaethau newyddion y BBC bob wythnos (y ffigur presennol yw 80%).

Defnyddio ffyrdd i gynyddu cynulleidfaoedd gwasanaethau llai heb aberthu eu neilltuolrwydd. Mae 6Music yn enghraifft o'r modd y mae ymwybyddiaeth uwch yn gallu arwain at werth cyhoeddus uwch. Credwn fod gwasanaethau eraill a allai gael mwy o effaith, yn cynnwys BBC Four.

Fel rhan o'i ymdrech i adlewyrchu'r DU gyfan yn well:

Cyhoeddi datganiadau clir gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol, fel rhan o'r gweithredu ar y strategaeth hon, ynghylch beth mae'r BBC yn bwriadu ei gynnig i'r gynulleidfa ym mhob un o Genhedloedd y DU: Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Bydd y datganiadau hyn yn egluro sut bydd y BBC yn cyflawni'r blaenoriaethau a'r amcanion sydd wedi'u nodi yn y strategaeth hon i dalwyr ffi'r drwydded ym mhob un o'r Cenhedloedd.

[3] Bydd yr Ymddiriedolaeth yn ymgynghori ar gasgliadau dros dro o'i hadolygiad o bolisi syndicetio ar alwad ar ddechrau 2011.

Sut bydd yr Ymddiriedolaeth yn mesur cynnydd

Byddwn yn monitro ac yn cofnodi'r ehangu ar DAB a gwelliannau a datblygiadau eraill mewn technolegau dosbarthu.

Byddwn yn dal i ddefnyddio adborth gan gynulleidfaoedd ac ymchwil iddynt i dynnu sylw at unrhyw faterion penodol sy'n ymwneud â mynediad at wasanaethau'r BBC.

Mesurir cyrhaeddiad y BBC cyfan drwy ddefnyddio arolwg Cross Media Insight y BBC, wedi'i ategu gan fesurau defnyddio BARB a RAJAR.

Cofnodir y cynnydd ar adlewyrchu'r DU gyfan bob blwyddyn yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC drwy ddatganiad o gynnydd ar gyfer pob un o'r Cenhedloedd. Bydd y datganiadau hyn yn disgrifio cynnydd ar gyflawni'r blaenoriaethau sydd wedi'u pennu yn yr Adolygiad o Strategaeth hwn ac yn cynnwys data ar weithredu'r Adolygiad Cyflenwi Rhwydwaith yn ogystal â data am gynulleidfaoedd ynghylch perfformiad yn erbyn y diben cyhoeddus perthnasol.

Ffiniau'r BBC

Mae'r strategaeth hon yn un ar gyfer BBC cryf a fydd ar ei ffurf bresennol fwy neu lai. Nid oedd ein hadolygiad yn ymwneud â lleihau nifer gwasanaethau'r BBC yn sylweddol, gan nad oedd unrhyw newid allanol mewn technoleg, ariannu neu ymddygiad cynulleidfaoedd a oedd yn galw am unrhyw ostyngiad sylweddol ar unwaith. Dangosai ymatebion i'n hymgynghoriad nad oedd awydd mawr am ostyngiad o'r fath un ai ymhlith y cyhoedd neu ar ran y diwydiant cyfryngau.

Er hynny, mae'r Ymddiriedolaeth yn credu o hyd na ddylai'r BBC fod yn fwy nag y mae angen iddo fod, ac mae Gweithrediaeth y BBC wedi cynnig amryw o newidiadau penodol mewn gwasanaethau unigol y mae'n credu eu bod yn gwneud synnwyr ar eu telerau eu hunain. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cymeradwyo uchelgais y Weithrediaeth i osod ffiniau cliriach o gwmpas gweithgareddau'r BBC yn y dyfodol, ac yn cefnogi'n benodol dri chynnig allweddol mewn tri maes allweddol lle mae'r farchnad yn neilltuol o sensitif. Rydym yn derbyn y ddadl dros gael gwared â rhan helaeth o fusnes cylchgronau BBC Worldwide, os gellir cael pris iawn. Rydym yn cytuno, yng nghyd-destun presennol y farchnad, na ddylai'r BBC lansio gwasanaethau newydd sy'n fwy lleol na'i arlwy presennol, yn enwedig o gofio ei fod bellach wedi ymrwymo i gynnig cymorth i unrhyw ddarparwyr masnachol a fydd yn darlledu newyddion lleol ar deledu yn y dyfodol. Byddwn yn ceisio cael gostyngiad o 25% yng nghyllideb BBC Ar-lein, er mwyn gwella ansawdd a chydlyniant cyffredinol y gwasanaeth a 'gwneud llai o bethau'n well'. Rydym yn disgwyl gwneud cyhoeddiad cyn hir ynghylch natur y newidiadau sydd dan sylw.

Byddwn hefyd yn ystyried yn ofalus unrhyw gynnig ffurfiol i gau'r Asian Network, er nad ydym bellach yn disgwyl cael cais i gau neu newid 6 Music.

Mae setliad newydd y BBC ar ffi'r drwydded yn newid y darlun i ryw raddau. Nid yw'n ymarferol disgwyl y gellir cael gostyngiad o 16% yn y gyllideb o fewn pedair blynedd heb fod gofyniad am rai newidiadau yn ystod y gwasanaethau a'r gweithgareddau. Yn ystod y ddwy flynedd nesaf, felly, bydd angen i Ymddiriedolaeth a Gweithrediaeth y BBC gytuno ar darged ymarferol ar gyfer effeithlonrwydd cynhyrchiol yn y cyfnod rhwng 2013/14 a 2016/17, ac ar y ffordd orau i lenwi unrhyw fwlch mewn cyllid sydd ar ôl. Mae hynny'n debygol o alw am adolygiad mwy sylfaenol o'r sylfaen gostau ac o ffurf gwasanaethau'r BBC nag a gyflawnwyd yn ystod yr Adolygiad o'r Strategaeth. Bydd angen hefyd iddo gynnwys ailasesiad o'r portffolio teledu yr oeddem wedi disgwyl iddo ddigwydd tua adeg y newid i ddigidol yn 2012/13.

Yr arweinlyfr i'r broses hon fydd y strategaeth sydd wedi'i chyflwyno yma a'r egwyddorion allweddol fydd y pedwar amcan yr ydym wedi'u gosod ar gyfer BBC y dyfodol: cynyddu ansawdd a neilltuolrwydd; gwell gwerth am arian; gosod safonau newydd ar gyfer gweithredu agored a thryloyw; gwneud mwy i wasanaethu'r holl gynulleidfaoedd.

Drwy gyflymu'r newidiadau hynny yn ei ddiwylliant a'i ymddygiad gall y BBC sicrhau ei fod yn gosod y ffiniau cywir wrth iddo fynd drwy'r hyn a fydd yn gyfnod anodd o newid. Os gall y BBC ddangos, beth bynnag yw'r pwysau ariannol, ei fod yn mynd yn fwy neilltuol, yn fwy effeithlon, yn fwy tryloyw ac yn fwy sensitif i'w effaith bosibl ar y farchnad, bydd y strategaeth hon wedi llwyddo.